Elusen yw **Tir Coed**, sy'n cysylltu pobl â Thir a Choed er mwyn dysgu ac er mwyn lles. Mae gan Tir Coed dros 21 mlynedd o brofiad o gynllunio a darparu gweithgareddau addysg a lles awyr agored, ac felly mae ar flaen y gad o ran dysgu ar sail natur yn y Canolbarth a'r Gorllewin.

**Mae Tir Coed yn chwilio am gymorth ariannol i sefydlu a chyflwyno Dysgu am Natur, sef prosiect uchelgeisiol a fydd yn ailgysylltu plant ysgol Cymru â byd natur ar gost o £84K y flwyddyn. Gobeithio y byddwch chi'n buddsoddi yn y prosiect hwn sydd, yn ein barn ni, yn cynnig gwerth rhagorol am arian.**

## Y Broblem

Mae un o bob wyth o blant sy'n dechrau'r ysgol yng Nghymru yn cael eu dosbarthu'n ordew.[1] Mae tri chwarter y plant 8-12 oed yn treulio llai o amser yn yr awyr agored na charcharorion.[2] Mewn cyfnod pan fo'r gymdeithas wedi'i datgysylltu'n fwy o fyd natur nag erioed, mae byd natur yn dioddef dinistr ac effeithiau newid hinsawdd – mae 41% o rywogaethau'r Deyrnas Unedig yn dangos gostyngiad yn y boblogaeth ers 1970.[3] Mae pobl ifanc yn "rhwystredig ac yn bryderus am yr hyn sy'n digwydd", gydag un ym mhob pump yn dweud eu bod wedi cael hunllef am effeithiau newid hinsawdd.4

## Yr Ateb

Drwy brosiect Dysgu am Natur, bydd Tir Coed yn gweithio gyda phlant ac athrawon i gynyddu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o fyd natur a sut i ymwneud yn gadarnhaol â byd natur. Bydd Tir Coed yn ymgysylltu â nhw yn eu lleoliad addysgol, er mwyn osgoi cau unrhyw un allan ar sail iechyd, cyfoeth neu anghydraddoldeb amgylcheddol, gan roi gwersi arbenigol yn yr awyr agored a'r rheiny'n gysylltiedig â chwricwlwm newydd Cymru. Nod y prosiect yw cyflymu'r gwaith i ddatblygu addysg awyr agored o safon ar yr adeg hon o argyfwng i'r amgylchedd, yr economi ac iechyd corfforol a meddyliol pobl yng Nghymru.

## Y Prosiect

Bydd 3000 o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 a 1500 o staff o 100 o ysgolion ledled Dyfed Powys yn cymryd rhan mewn rhaglen ddysgu barhaus yn yr awyr agored. Bydd darpariaeth ar-lein ac ymarferol ar gael hefyd i ysgolion o'r tu allan i'r prosiect, gan ehangu ei effaith. Drwy alluogi'r ysgolion i ddatblygu eu darpariaeth awyr agored, bydd gwaddol y prosiect cynaliadwy hwn yn para'n hir, ac yn ysgogi newid diwylliant tuag at fanteision niferus addysg natur. Drwy alluogi athrawon i ddatblygu eu harferion, bydd y manteision i'w gweld drwy gydol gweddill eu gyrfaoedd.

## Y Cefndir

Mae Dysgu am Natur wedi'i adeiladu ar brofiad Tir Coed o ddatblygu a chyflawni prosiect Dysgu am Goed, sef prosiect mewn partneriaeth â Chymdeithas Goedwigaeth Frenhinol Lloegr a aeth â phlant ysgol i goetiroedd i ddysgu am goed. Addaswyd y prosiect mewn ymgynghoriad ag ysgolion Ceredigion i ateb anghenion cwricwlwm Cymru a'i gyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cymerodd 32 o ysgolion cynradd Ceredigion ran mewn 41 o sesiynau gan alluogi 1186 o blant a 132 o oedolion i elwa o'r prosiect. Cafodd ei ddatblygu dros ddwy flynedd, ei gyflwyno am ddwy flynedd arall a'i adolygu yn ystod y flwyddyn ganlynol, a dyna sylfaen gadarn o bum mlynedd o ddysgu y mae Dysgu am Natur yn deillio ohono.

Mae **Dysgu am Natur** yn codi ar adeg argyfyngus i'r amgylchedd, i'r economi ac i iechyd corfforol a meddyliol pobl Cymru. Mae hefyd yn mynd i'r afael â materion mwy lleol, sy'n ymwneud ag aml-amddifadedd, anghydraddoldebau iechyd, erydu'r Gymraeg, mynediad i fannau gwyrdd ac allfudo ymysg pobl ifanc.

## Cyllid

Mae Tir Coed wrthi'n chwilio am fuddsoddwyr ar gyfer y prosiect perthnasol hwn y mae mawr angen amdano.

Mae gan yr elusen incwm blynyddol ar hyn o bryd o £400K ar gyfer prosiectau llwyddiannus eraill gan gynnwys y prosiect LEAF sy'n cynnig hyfforddiant wedi'i seilio ar natur a gweithgareddau i grwpiau difreintiedig. Mae'r incwm hwn yn cynnwys arian anghyfyngedig o'r gweithgareddau hynny sy'n cynhyrchu eu hincwm eu hunain ac rydyn ni wedi ymrwymo i'w datblygu.

## Cyd-Destun

Mae manteision dysgu yn yr awyr agored wedi'u cofnodi'n dda ond dydyn ni ddim yn gweld yr wybodaeth hon yn cael ei rhoi ar waith ym mhob un o'n hysgolion.

**Covid-19:** mae'r awyr agored yn ddelfrydol ar gyfer lleihau'r risg o ledaenu'r haint gan fod y risg o'i drosglwyddo yn lleihau'n fawr yn yr awyr agored. O gael mwy o le, mae hi hefyd yn symlach rhoi mesurau ymbellhau cymdeithasol ar waith.

**Amgylcheddol:** yn 2019, gadawodd degau o filoedd o blant ysgol ledled y Deyrnas Unedig yr ysgol i gymryd rhan mewn streiciau hinsawdd: "Mae'r ysgol yn bwysig ond mae fy nyfodol i'n bwysig hefyd". Mae Dysgu am Natur yn rhannol yn ymateb ar ran Tir Coed i'r galwadau hyn gan blant am i gamau gael eu cymryd. Drwy gysylltu plant â byd natur a'u helpu i ddeall ei heriau a'i gyfleoedd, gallwn roi'r wybodaeth iddyn nhw i gyflawni'r newid y maen nhw am ei weld. Byddwn yn eu grymuso i fod yn rhan o'r ateb.

**Addysgol:** Mae Cymru ar fin cyflwyno cwricwlwm newydd sy'n canolbwyntio ar ddysgu drwy brofiad a sgiliau bywyd. Mae natur drawsgwricwlaidd dysgu yn yr awyr agored yn debyg i fywyd go iawn yn ei gwneud yn arf perffaith i ddod â'r cwricwlwm newydd yn fyw. Mae dysgu effeithiol yn yr awyr agored hefyd yn cael ei gefnogi'n gryf gan ESTYN, arolygiaeth ysgolion Cymru.

**Strategol:** mae nodau ac effeithiau'r prosiect yn cyd-fynd â nodau polisi cenedlaethol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, yn ogystal â chynlluniau lleol a mentrau addysg awyr agored fel Dysgu yn yr Awyr Agored o Safon Uchel i Gymru.

## Datblygu

Prosiect partneriaeth yw Dysgu am Natur. Byddwn yn dod â phartneriaid addysgol allweddol at ei gilydd i gynghori ar y prosiect, ei hybu a helpu i'w gyflawni. Bydd y rhain yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, y sefydliad cymorth addysg rhanbarthol ERW, Urdd Gobaith Cymru, Volunteering Matters a'r awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol yn ardal y prosiect. Ar ôl adolygu prosiectau blaenorol yn ofalus ac yn y cyd-destun a amlinellwyd uchod, mae'r prosiect wedi'i ddatblygu drwy ymgynghori â'r sefydliadau hyn. Ymgynghorwyd â 52 o ysgolion lleol hyd yn hyn hefyd, gyda 100% o'r staff y siaradwyd â nhw yn mynegi diddordeb mewn prosiect o'r math hwn. Mae'r prosiect wedi'i gynllunio gan weithwyr addysg awyr agored proffesiynol profiadol o fewn tîm Tir Coed, ac mae ganddo gynllun cyflenwi cadarn a manwl, gydag allbynnau hyfforddi mesuradwy ac effeithiau hirdymor sy'n cynnwys newid agweddau, ynghyd â chynllun clir ar gyfer monitro newid a gwerthuso'r prosiect.

# CYNLLUN CYFLENWI

## STAFF

1 Rheolwr Prosiect – amser llawn
4 Swyddog Dysgu – 1.5 diwrnod yr wythnos
Amser y staff craidd presennol e.e. Marchnata a Chyllid

## YSGOLION

Cyfarfodydd â staff uwch
Sesiynau HMS i'r ysgol gyfan

yn cael canllawiau wedi'u teilwra ynghylch:
- nodi rhwystrau sy'n atal dysgu yn yr awyr agored
- ymgorffori ethos ysgol awyr agored
- cynllunio'r cwricwlwm i'r ysgol gyfan
- datblygu seiliau ar gyfer dysgu yn yr awyr agored
- cysylltu â'r gymuned ehangach
- cyfleu'r uchod i gyd

## STAFF YR YSGOLION

Sesiynau DPP
Cynlluniau tîm
Cyfleoedd dilyn gwaith

yn cael:
- dealltwriaeth o fanteision dysgu yn yr awyr agored
- gwell hyder at addysgu yn yr awyr agored
- gwybodaeth a dealltwriaeth o natur gan gynnwys y bygythiadau a'r cyfleoedd
- sgiliau a phrofiadau ar gyfer dysgu yn yr awyr agored
- amrywiaeth o syniadau, adnoddau a chynlluniau gwersi
- cymorth gyda chynllunio ar gyfer dysgu yn yr awyr agored
- gwell lles meddyliol a chorfforol

## DISGYBLION

Bydd un grŵp o bob ysgol yn cymryd rhan mewn rhaglen o chwe sesiwn sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm (gweler tu-dalen 4)

yn cael yr holl fanteision sydd wedi'u cofnodi ynglŷn â dysgu yng nghanol natur, gan gynnwys (ymysg pethau eraill):
- cysylltiad cryf â natur a gwybodaeth dda o natur
- gwell llythrennedd corfforol
- gwell lles meddyliol ac emosiynol
- sgiliau cymdeithasol e.e. cyfathrebu, gwaith tîm
- sgiliau personol e.e. gwydnwch, hunanreoleiddio, lliniaru risg, creadigrwydd, datrys problemau
- gwell gallu gwybyddol a geirfa ehangach
- mwy o chwilfrydedd ac angerdd dros ddysgu

# Cynllun Cyflenwi

**Yn ystod y rhaglen o chwe sesiwn dysgu yn yr awyr agored bydd y plant yn elwa drwy fynd â'u haddysg i'r awyr agored. Caiff athrawon dosbarth gyfle i ddysgu am gynllunio a darparu addysg awyr agored effeithiol yn gysylltiedig â'r cwricwlwm gan staff Tir Coed wrth ddatblygu eu darpariaeth eu hunain. Bydd tir yr ysgol hefyd yn cael ei ddatblygu. Bydd pob sesiwn yn rhychwantu'r cwricwlwm ond bydd ffocws pendant iddo hefyd.**

| Gweithgaredd | Diben | Maes Dysgu | Cysylltiadau â'r Cwricwlwm |
|---|---|---|---|
| Cysylltu â Natur<br>Ymwybyddiaeth ofalgar, llythrennedd corfforol, gemau tîm, magu hyder, archwilio, darganfod | Cyn y gall plant ddatblygu cysylltiad gwybyddol â natur, rhaid iddyn nhw ddechrau â chysylltiad emosiynol. | Iechyd a Lles | Datblygu iechyd a lles corfforol, prosesu'n profiadau ac ymateb iddyn nhw, gwneud penderfyniadau, dylanwadau cymdeithasol |
| Mapio<br>Adnabod, cofnodi, cynlluniau, sut gallai'r safle gael ei wella? | Mae darganfod pethau am fflora a ffawna safle yn helpu i'w ddeall yn well ac yn rhoi ymdeimlad o berchnogaeth. | Mathemateg a Rhifedd | Cyfrif, cymharu, dosbarthu, didoli, samplu, mesur, patrymau, rhesymu |
| Datblygu ar gyfer bioamrywiaeth<br>Plannu, adeiladu cynefinoedd, llythrennedd carbon, cynhyrchu bwyd | Yn ystod y sesiynau hyn, bydd y plant a'r staff yn ystyried y berthynas symbiotig rhwng pobl a natur. Byddan nhw'n datblygu sgiliau newydd ac yn dechrau gweld y cyfleoedd sydd gan natur i'w cynnig. Bydd y gweithgareddau yn cyd-fynd ag anghenion y safle a buddiannau'r grŵp. | Dyniaethau | Ymholi, archwilio ac ymchwilio, mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddeinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol, dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol sy'n cymryd camau ystyriol a moesegol. |
| Datblygu ar gyfer pobl<br>Adeiladu cysgodfa, llwybrau, ffiniau, gerddi, meinciau | | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Datrys problemau, arloesi, bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion, meddwl am ddyluniadau creadigol, pethau byw |
| Rhannu<br>Celf, ffotograffiaeth, barddoniaeth, chwarae rôl, ffilm natur | Drwy rannu'r hyn maen nhw wedi'i deimlo gyda phobl eraill, byddan nhw'n lledaenu'r neges ac yn ymgorffori'r syniadau ynddyn nhw eu hunain hefyd. | Celfyddydau Creadigol | Perfformio, cyflwyno, ymateb, myfyrio, datblygu sgiliau a gwybodaeth artistig, gan alluogi'r dysgwyr i ddod yn unigolion creadigol chwilfrydig |
| Dathlu<br>Cynnau tân yn ddiogel, fforio, coginio | Yn ogystal ag amser i fyfyrio, bydd hyn yn ddathliad o'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu a'r cysylltiadau maen nhw wedi'u gwneud. | Llythrennedd, Ieithoedd a Chyfathrebu | Cofnodi, myfyrio, adrodd stori, diwylliant, cysylltu, cyfathrebu. Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas. |
| Gwobr Ceidwad Natur | Drwy gydol y rhaglen bydd plant yn gweithio tuag at Wobr Ceidwad Natur. Bydd hyn yn cynnig cyfrwng i fyfyrio ar yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu, cofnod o'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni ac yn cysylltu'r gweithgareddau a gyflawnwyd â chyfleoedd proffesiynol ym maes natur. | | |

## Monitro a Chloriannu

Bydd effeithiolrwydd y prosiect yn cael ei fonitro drwy gymharu profion a holiaduron sylfaenol a gwblheir gan y staff a'r disgyblion â chanlyniadau ar ôl eu hymwneud â'r prosiect.

Bydd ansawdd y ddarpariaeth yn cael ei gwerthuso drwy arolygon ymysg y cyfranogwyr, gwiriadau ansawdd mewnol ac adroddiadau ar yr allbwn.

# Pwyntiau Allweddol

## Gweledigaeth y Prosiect



Ysbrydoli cariad at fyd natur yng nghenedlaethau'r dyfodol a rhoi iddyn nhw'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i'w galluogi i ddod yn warcheidwaid i'r byd hwnnw. Eu helpu i ddarganfod cyfleoedd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol perthynol a all gyfrannu at greu Cymru iachach, hapusach, mwy llewyrchus a mwy gwydn.



- Prosiect 5 mlynedd gwerth £421K
- Wedi'i ddatblygu dros y pum mlynedd diwethaf gan staff profiadol Tir Coed drwy ymgynghori â 10 partner allweddol a 52 o ysgolion
- Yn cael ei gyflwyno ar draws pedair sir wledig: Powys, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion
- Ymgysylltu â 3000 o blant ysgol erbyn diwedd y prosiect
- Ymgysylltu â 2000 o athrawon erbyn diwedd y prosiect
- Pan fydd 2000 o athrawon yn elwa, mae 60,000 o blant ysgol eraill yn elwa'n anuniongyrchol o fewn y flwyddyn gyntaf ar ôl ymwneud â'r prosiect ond am ein bod ni'n hyfforddi'r hyfforddwyr, mae'r gwaddol yn para'n hir
- Yn cael ei gyflwyno gan sefydliad uchel ei barch sydd ag 21 mlynedd o brofiad o gysylltu pobl â byd natur





Mae Tir Coed yn ceisio codi cyfanswm o £421K (£84K y flwyddyn ar gyfartaledd) ar gyfer y prosiect pum mlynedd hwn. Am gost o £84 y person a fydd yn elwa'n uniongyrchol ynghyd â'r gwaddol hirhoedlog a ddisgrifiwyd uchod, rydym yn credu bod hyn yn werth rhagorol am arian.



Bydd y cyllid yn cael ei fuddsoddi mewn Rheolwr Prosiect amser-llawn, gwaith animeiddio, ymgysylltu a hybu'r prosiect, cyflogau'r staff sy'n cyflenwi'r prosiect, datblygu adnoddau dysgu awyr agored ac ystafelloedd dosbarth awyr agored mewn ysgolion, deunyddiau cyflwyno, monitro, ymchwilio a gwerthuso, datblygu partneriaethau a chyfran o gostau craidd a gorbenion Tir Coed.

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso ichi ofyn. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at glywed gennych,**

**Nancy Hardy**

**Swyddog Datblygu Addysg**

[1]Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019) [2]Astudiaeth Persil (2016) o'i gymharu â Rheolau Gofynnol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Trin Carcharorion (1977) [3] "State of Nature" gan y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (2019) [4]Arolwg gan Savanta-ComRes ar ran Newsround (2020)